OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 3160 (Cy.295)

AER GLÅN, CYMRU

Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud	- -	*17 Rhagfyr 2002*
Yn dod i rym	- -	*31 Rhagfyr 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 20(6) a 63(1) o Ddeddf Aer Glân 1993(**1**), ac sy'n arferadwy yn awr gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002 a byddant yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Tanwyddau Awdurdodedig at ddibenion Deddf Aer Glân 1993

2.—(1) Diwygir Atodlen 1 i Reoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2001(**3**) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 3(a)—

(a) yn lle "85" rhoddir "95"; a

(b) ar ôl "rhwymwr triagl ac asid ffosfforig" mewnosodir "neu rwymwr organig".

(3) Ym mharagraff 5(a), dileir "a lleithder (sef gweddill y pwysau)".

(4) Ar ôl paragraff 10, mewnosodir—

10A. Brics glo Dragonglow, a weithgynhyrchir gan Tower Colliery Limited yn Aberdâr, Rhondda Cynon Taf—

(a) sy'n cynnwys llwch y tŵr (sef rhyw 95 y cant o gyfanswm y pwysau) a rhwymwr wedi ei seilio ar resin (sef gweddill y pwysau);

(**1**) 1993 p.11.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: *gweler* Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.S. 2001/3762 (Cy. 311), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/3996 (Cy. 327).